

**Canfyddiadau a phrofiadau o
raddio yn haf 2021:
Ymchwil gyda gweithwyr addysg
proffesiynol yng Nghymru**

Crynodeb



**Cynhyrchwyd ar gyfer Cymwysterau
Cymru
gan Opinion Research Services
Mai 2022**



Opinion Research Services

The Strand Abertawe SA1 1AF

01792 535300 | www.ors.org.uk | info@ors.org.uk

Yn yr un modd â'n holl astudiaethau, mae canfyddiadau'r adroddiad hwn yn destun Telerau ac Amodau Contract Safonol Opinion Research Services.

Mae unrhyw ddatganiad i'r wasg neu gyhoeddiad o ganfyddiadau'r adroddiad hwn yn gofyn cymeradwyaeth ORS ymlaen llaw. Dim ond ar sail anghywirdeb neu gamliwio y gwrthodir cymeradwyaeth o'r fath

Cynhaliwyd yr astudiaeth hon yn unol ag ISO 20252:2019 ac ISO 9001:2008.

© Hawlfraint Mai 2022

1. Cyflwyniad

1.1. Cefndir

Oherwydd pandemig COVID-19, mae dysgwyr yng Nghymru wedi dioddef aflonyddwch sylweddol ar eu dysgu ers mis Mawrth 2020 drwy gau ysgolion, cyfyngiadau symud, a defnyddio "swigod dysgu". Arweiniodd yr aflonyddwch hwn, ynghyd ag ansicrwydd parhaus ynghylch lledaeniad y feirws a dichonoldeb cysylltiedig cynnal arholiadau, at benderfyniad Lywodraeth Cymru i [gyhoeddi](#) y byddai cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch yn cael eu dyfarnu drwy fodel gradd a bennir gan ganolfan yn ystod haf 2021. Gofynnwyd i'r Grŵp Cynghori ar Ddylunio a Chyflawni weithio gyda Cymwysterau Cymru a CBAC i ddatblygu a nodi'r dull gweithredu.

Roedd hyn yn cynnwys canolfannau'n pennu graddau yn seiliedig ar eu dull asesu eu hunain yn hytrach na chael dysgwyr i sefyll asesiadau safonedig, megis arholiadau. Darparodd CBAC hyfforddiant, arweiniad, papurau blaenorol wedi'u haddasu, fframweithiau asesu cymwysterau, a sicrhau ansawdd, ond ni newidiodd raddau. Roedd y dulliau gweithredu yn fwy amrywiol ar gyfer cymwysterau galwedigaethol yn dibynnu ar ddyluniad a phwrpas y cymhwyster.

1.2. Gofynion ac amcanion ymchwil

Comisiynodd Cymwysterau Cymru Opinion Research Services (ORS) i gynnal prosiect ymchwil dau gam yn cynnwys arolwg ar-lein a chyfweliadau manwl i archwilio canfyddiadau a phrofiadau staff canolfannau a oedd yn gwneud neu'n goruchwylio penderfyniadau graddio yn ystod haf 2021. Archwiliodd yr ymchwil:

- Ddefnydd tystiolaeth ac asesiadau wrth wneud penderfyniadau graddio
- Sut oedd canolfannau'n gweithio gyda'i gilydd i bennu graddau
- Effeithiolrwydd safoni mewnol, a sicrhau ansawdd allanol
- Hydrinedd y broses gradd a bennir gan y ganolfan
- Pa mor ddefnyddiol yw disgrifwyr gradd, hyfforddiant, arweiniad a chymorth
- Hyder yn y graddau a ddyfernir gan ganolfannau
- A oedd y dull gweithredu o fantais neu anfantais i ddysgwyr, a sut
- Yr hyn a weithiodd yn dda a pha wersi y gellir eu dysgu o'r broses gradd a bennir gan y ganolfan
- Sut olwg ddylai fod ar asesiad athrawon yn y dyfodol.

1.3. Methodoleg

Cynlluniodd ORS yr arolwg ar-lein mewn partneriaeth â Cymwysterau Cymru. Gwahoddwyd yr holl staff canolfan a fu'n ymwneud â graddio yn haf 2021 i gymryd rhan yn yr arolwg ar-lein. Roedd yr arolwg yn fyw rhwng 14 Medi ac 8 Hydref 2021. Cafodd ORS ychydig o dan 400 o ymatebion i'r arolwg, gyda nifer dda o ymatebion gan y unigolion mewn amrywiaeth o rolau o bob rhan o Gymru.

Cynhaliodd ymchwilyr ORS 30 o gyfweiliadau manwl: 25 yn Saesneg, a phump yn Gymraeg, gyda staff mewn rolau amrywiol o amrywiaeth o ganolfannau ledled Cymru. Roedd y rhan fwyaf o gwestiynau'r cyfweiliad yn cyfeirio'n ôl at ymatebion arolwg y cyfweleion ac yn eu harchwilio'n fanylach, er bod rhai cwestiynau cyfweiliad heb eu cynnwys yn yr arolwg, ac i'r gwrthwyneb.

Mae'r adroddiad yn crynhoi barn nifer o staff canolfan sy'n ymwneud â phennu graddau gan ganolfan ac mae'n werthfawr o ran deall eu safbwynt. Fodd bynnag, gan mai methodoleg hunan-ddethol oedd hon, nid yw'r sampl yn gynrychioliadol o'r holl staff ar draws pob canolfan yng Nghymru. Gan nad oedd y rhan fwyaf o staff yn ymwneud yn uniongyrchol â'r broses o benderfynu ar y polisi, ni fydd llawer o'r cyfranogwyr wedi llwyr werthfawrogi pob agwedd ar bolisi perthnasol neu heriau cyflwyno dull graddio a bennir gan ganolfan o dan yr amgylchiadau.

1.4. Prif ganfyddiadau

1.4.1. Casglu a defnyddio tystiolaeth asesu

Roedd nifer yr asesiadau ychwanegol a drefnwyd at ddibenion graddio yn amrywio'n sylweddol. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr eu bod wedi dewis yr un dystiolaeth i bob dysgwr i lywio graddio mewn pwnc. Dywedwyd mai'r rheswm pennaf am hyn oedd sicrhau tegwch a chysondeb, gan gynnwys paratoi dysgwyr i symud ymlaen i ddysgu pellach ar ôl eu TGAU, ac i leihau'r baich ar staff. Roedd rhai hefyd yn teimlo bod angen hyn ar y corff dyfarnu, gan adlewyrchu camddealltwriaeth o bosibl mewn disgwyliadau.

Dywedodd y cyfranogwyr yn bennaf eu bod yn defnyddio'r papurau blaenorol wedi'u haddasu a ddarparwyd gan CBAC neu'r corff dyfarnu i wneud penderfyniadau graddio. Nododd rhai eu bod wedi addasu'r papurau blaenorol hyn ymhellach cyn eu defnyddio. Defnyddiodd eraill bapurau blaenorol heb eu haddasu o flynyddoedd blaenorol.

Nododd cyfranogwyr eu bod yn tueddu i ddewis eu dystiolaeth ar gyfer graddio yn seiliedig ar bwysigrwydd canfyddedig glynu wrth ganllawiau cyrff dyfarnu, a phryderon am sicrhau ansawdd allanol, gan adlewyrchu thema sy'n codi dro ar ôl tro yn yr astudiaeth hon. Mewn rhai achosion, dywedwyd bod uwch arweinwyr a phenaethiaid adrannau wedi arwain penderfyniadau ynghylch dewis dystiolaeth ar gyfer graddio. Dywedwyd bod union bwysiad yr asesiadau a sut / pryd y cawsant eu cynnal yn amrywio rhwng ganolfannau.

Ar y cyfan, roedd cyfranogwyr yn teimlo bod ganddynt ddigon o hyblygrwydd wrth ddewis tystiolaeth ar gyfer graddio. Fodd bynnag, roedd rhai'n adlewyrchu y byddent wedi croesawu mynediad i bapurau nas gwelwyd o'r blaen gan CBAC. Roedd rhai dysgwyr wedi dysgu ar eu cof y papurau blaenorol a gyhoeddwyd a ddefnyddiwyd ar gyfer asesu, ac roedd athrawon yn teimlo bod hyn yn rhoi mantais annheg iddynt dros ddysgwyr nad oeddent wedi gwneud hynny, gan adlewyrchu thema arall a gododd yn rheolaidd yn yr astudiaeth. Dywedodd eraill nad oeddent yn defnyddio'r hyblygrwydd a oedd ganddynt oherwydd pryderon y byddai hyn yn eu gadael yn agored i gael eu herio yn ystod prosesau sicrhau ansawdd ac apelio allanol, ac roedd rhai yn teimlo bod eu canolfan wedi cyfyngu ar eu hyblygrwydd i ddewis tystiolaeth.

Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn teimlo bod y canlynol yn ffactorau pwysig wrth benderfynu faint o dystiolaeth i'w defnyddio ar gyfer graddio:

- Darparu sail dystiolaeth gadarn i lunio barn ac yn achos apelïadau
- Rhoi'r cyfle gorau i ddysgwyr ddangos yr hyn y gallent ei wneud; a
- Pholisiau'r ganolfan.

Yn ôl llawer o'r rhai y cyfwelwyd â hwy, ni theimlwyd bod pwysau canfyddedig neu wirioneddol gan ddysgwyr a rhieni yn bwysig wrth wneud penderfyniadau ynghylch casglu tystiolaeth.

Pan ofynnwyd i'r cyfranogwyr yn y cyfweiliad a oeddent wedi defnyddio ffiniau graddau a sut yr oeddent wedi gwneud hynny, dywedodd y rhan fwyaf eu bod yn defnyddio ffiniau graddau wedi'u haddasu a bennwyd gan gyrff dyfarnu. Teimlai rhai cyfranogwyr y buasai'r disgrifyddion gradd a roddwyd iddynt gan CBAC yn well pe baent yn fanylach ac yn cynnwys pob gradd.

Esboniodd cyfranogwyr fel arfer fod achosion a oedd ar y ffin rhwng y naill radd a'r llall yn cael eu trin drwy farcio dwbl yn ystod y broses safoni mewnlol. Er i'r rhan fwyaf ddweud eu bod yn teimlo'n hyderus wrth ddelio ag achosion ffiniol, roedd llawer yn teimlo bod hyn yn achosi straen oherwydd y potensial ar gyfer apelïadau neu graffu allanol.

Pan ofynnwyd iddynt beth yr oeddent yn ei ddeall wrth y pwynt cyfarwyddyd i lunio barn gyfannol, dywedodd yr holl gyfranogwyr eu bod yn deall bod llunio barn academaidd gyfannol yn golygu y dylent ystyried perfformiad ehangach y dysgwr drwy gydol eu hastudiaeth TGAU wrth wneud penderfyniadau graddio yn hytrach na seilio penderfyniadau ar asesiadau unigol.

1.4.1.1. Hyfforddiant ac arweiniad

Roedd bron yr holl gyfranogwyr yn teimlo'n glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau drwy gydol y broses raddio ac roeddent yn hyderus yn eu galluoedd i'w cyflawni. Dywedwyd bod cymorth gan gydweithwyr yn y canolfannau a thimau arwain i sicrhau eglurder yn cael ei werthfawrogi'n fawr. Er mwyn egluro eu rolau a'u cyfrifoldebau ymhellach, dywedodd y cyfranogwyr y byddent wedi croesawu:

- Penderfyniadau cynharach ar newidiadau i'r broses raddio, a hysbysiadau ohonynt
- Fideos yn dangos arfer gorau; ac
- Aseidiadau sampl, yn enwedig ar gyfer pynciau newydd.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr eu bod yn ymwybodol o hyfforddiant ar y broses raddio a ddarperir gan eu canolfannau eu hunain, a'u bod wedi mynychu hyfforddiant o'r fath. O gymharu, dywedodd tua hanner y cyfranogwyr eu bod yn ymwybodol o'r hyfforddiant a ddarparwyd gan CBAC ac wedi mynychu'r hyfforddiant hwnnw. Ar y cyfan, roedd cyfranogwyr yn teimlo bod yr hyfforddiant a ddarparwyd gan CBAC a Cymwysterau Cymru yn glir ac yn ddefnyddiol, yn enwedig yr hyfforddiant a oedd yn cwmpasu safoni a rhagfarn anymwybodol. Beirniadodd rhai'r hyfforddiant am eu bod yn teimlo ei fod yn rhy hwyr, ac nad oedd yn ddigon manwl am y dystiolaeth y gellid ei defnyddio ar gyfer graddio.

1.4.2. Safoni mewnol

Roedd cyfranogwyr yn dueddol o ddweud eu bod yn graddio eu dysgwyr eu hunain, yna'n dewis sampl i gydweithiwr ei gymedroli. Lle'r oedd gan ganolfannau fwy nag un arbenigwr pwnc ar gyfer y lefel a oedd yn cael ei marcio, dywedodd arweinwyr pwnc eu bod yn safoni ar draws yr athrawon yn y lle cyntaf ac yna'n trosglwyddo papurau i'r Cyfarwyddwr Dysgu. Mewn canolfannau lle roedd un athro pwnc penodol yn unig, cafodd ei gymedroli gan y Cyfarwyddwr Dysgu, neu gwnaed cysylltiadau ag athrawon y pwnc mewn canolfan arall.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr ei bod yn hawdd cytuno ar raddau gyda chydweithwyr yn ystod safoni mewnol. Dywedwyd mai'r mater mwyaf cyffredin a gafwyd oedd anawsterau logistaidd wrth gynnal trafodaethau. Er bod y rhan fwyaf yn teimlo bod safoni mewnol yn effeithiol, yn gyffredinol, ac fel proses sicrhau ansawdd, mynegodd rhai ei bod yn anodd, yn achosi straen ac yn cymryd llawer o amser.

Dywedodd cyfranogwyr eu bod wedi newid graddau i fyny ac i lawr yn dilyn safoni mewnol. Newidiwyd graddau er mwyn:

- Cynrychioli perfformiad dysgwyr yn gywir ar draws gwahanol aseidiadau
- Adlewyrchu prosesau safoni trwyadl
- Cywiro gwallau; ac
- Ystyried dysgu blaenorol, a dysgu papurau blaenorol cyhoeddedig ar gof.

1.4.3. Sicrhau ansawdd a chywirdeb graddau

Yn gyffredinol, dywedodd cyfranogwyr eu bod wedi graddio ar gyfer dysgwyr yr oeddent wedi'u haddysgu, yn hytrach nag ar gyfer y rhai nad oeddent wedi'u dysgu. Cafwyd

darlun cymysg o ran i ba raddau yr oedd canolfannau'n trafod dulliau graddio ac yn graddio ar draws canolfannau.

Lle'r oedd cysylltiadau wedi'u gwneud i gynnal y broses rhwng canolfannau, roedd yr agweddau a oedd yn ddefnyddiol i gyfranogwyr yn cynnwys:

- Cyd-ddatblygu polisiau a phrosesau canolfannau
- Sicrwydd bod dysgwyr yn cael y graddau cywir
- Mabwysiadu arfer effeithiol a magu hyder wrth raddio; a
- Gweithredu dull cyson o raddio ar draws canolfannau.

Nododd cyfranogwyr nad oedd graddio gyda chanolfannau eraill yn gweithio cystal pan oedd yn cynyddu'r pwysau amser ar staff; a bod diffyg cydgysylltu a threfn yn perthyn iddo.

Roedd yn amlwg bod hyder cyfranogwyr yn y prosesau sicrhau ansawdd allanol sy'n cael eu cynnal gan CBAC/y corff dyfarnu yn amrywio. Roedd rhai'n pryderu bod prosesau CBAC:

- Yn annigonol o drylwyr
- Yn methu delio â chanlyniadau ysgolion a oedd yn uwch neu'n is na'r disgwyl.

Teimlai eraill fod CBAC yn darparu:

- Gwybodaeth aneglur ac anghyson
- Prinder sicrhau ansawdd; a
- Dull anghyson o gymeradwyo polisiau asesu canolfannau.

Roedd y rhai a oedd yn teimlo'n fwy hyderus yn y prosesau sicrhau ansawdd allanol yn tueddu i ddyfynnu:

- Profiad blaenorol fel safonwr
- Cael sicrwydd gan waith craffu ychwanegol y prosesau; a
- Chroesawu penodoldeb ac eglurder y deunyddiau ategol.

Mynegodd cyfranogwyr fwy o hyder yng nghywirdeb y graddau a ddyfarnwyd ganddynt ar gyfer eu dysgwyr eu hunain nag a wnaethant yng nghywirdeb y graddau a ddyfarnwyd gan ganolfannau eraill. Priodolwyd yr hyder cymharol uchel yn y graddau a ddyfarnwyd gan eu canolfan eu hunain i raddau helaeth i drylwyredd eu prosesau graddio. Roedd cyfranogwyr yn teimlo'n llai hyderus yn y graddau a ddyfarnwyd gan ganolfannau eraill oherwydd:

- Damcaniaethu am wahaniaethau wrth ddehongli canllawiau graddio
- Prosesau anghyson o drylwyr; a
- Gallu dysgwyr i gael gfael ar hen bapurau ar-lein.

1.4.4. Tegwch

Mynegodd y cyfranogwyr farn gymysg am degwch proses raddio haf 2021 o'i chymharu â blynyddoedd eraill pan gynhaliwyd arholiadau. Y mater a godwyd amlaf oedd anghysondeb rhwng canolfannau wrth ddyfarnu graddau. Dywedwyd bod angen mwy o sicrwydd ansawdd allanol er mwyn cynyddu tegwch. Nododd rhai y gall arholiadau ddarparu mwy o gysondeb na'r graddau a bennir gan y ganolfan a gallant fod yn brofiad dysgu gwerthfawr, er bod eraill yn teimlo bod arholiadau'n gynrychiolaeth lai teg o allu dysgwyr. Codwyd cyhoeddi papurau blaenorol (fel y soniwyd mewn manau eraill) hefyd fel mater o ran tegwch, yn ogystal â thueddiad posibl rhai staff canolfan i farcio'n is oherwydd ofn craffu, a'r ffaith na allai cyfranogwyr wybod sut yr oedd canolfannau eraill yn graddio.

Er mwyn cynyddu tegwch y broses raddio, teimlai rhai y dylid dychwelyd i'r dull graddio cyn y pandemig. Teimlai eraill y dylai'r canlynol fod ar gael:

- Papurau nas gwelwyd o'r blaen
- Amserlen benodol ar gyfer o leiaf rai asesiadau ar draws pob canolfan; a
- Mwy o sicrhau ansawdd a chasglu tystiolaeth.

1.4.5. Effeithiau

Roedd barn y cyfranogwr hefyd yn gymysg o ran hydrinedd y broses raddio. Roedd y rhai a deimlai fod y broses yn anhydrin yn priodoli hyn i'r angen i weithredu'r broses yn gadarn wrth barhau i addysgu. Dywedwyd hefyd bod y canlynol wedi effeithio ar hydrinedd y broses raddio:

- Pa mor hwyr oedd y penderfyniad i symud i'r graddau a bennir gan y ganolfan
- Pryderon ynghylch rheoli ansawdd graddio; a
- Chyhoeddi papurau blaenorol.

Roedd yr amser y dywedodd cyfranogwyr eu bod yn ei dreulio ar y broses raddio yn amrywio'n sylweddol. Serch hynny, dywedodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr fod y broses raddio yn effeithio ar amser addysgu, ac ar eu lles personol. Roeddent yn cysylltu hyn â faint o amser ychwanegol yr oedd y graddio'n ei gymryd, gan ddweud ei fod wedi cael effaith negyddol ar eu cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a'u hiechyd meddwl a chorfforol. Roedd straen arall a oedd yn gysylltiedig â graddio yn deilio o:

- Yr angen canfyddedig "i'w gael yn gywir"
- Pwysau o fewn canolfannau i gynnal canlyniadau nad oeddent yn rhy annhebyg i ganlyniadau yn y ganolfan mewn blynyddoedd blaenorol; ac
- Effaith y broses ar les personol y dysgwr.

Adroddwyd am ychydig o wrthdaro â rhieni a dysgwyr dros raddau a ddyfarnwyd gan ganolfannau. Roedd y cyfranogwyr yn cysylltu hyn â thrylwyredd y broses, a chyfathrebu

clir â rhieni a dysgwyr am ei gofynion. Nododd cyfranogwyr safbwyntiau cymysg am effaith graddio ar ddilyniant dysgwyr i ddysgu pellach a chyflogaeth. Dywedodd y rhai a oedd yn fwy cadarnhaol am hyn eu bod wedi targedu dysgu ac asesu i gefnogi dilyniant dysgwyr. Nodwyd hefyd y byddai dysgwyr yn gwneud cyfres o asesiadau yn hytrach nag arholiadau terfynol pan fyddent yn y brifysgol neu yn y gwaith. Mynegodd cyfranogwyr a deimlai y gallai graddio effeithio ar ddilyniant dysgwyr yn y dyfodol bryderon am:

- Y dysgwr yn colli addysg
- Prinder sgiliau ymarferol oherwydd treulio llai o amser ar weithgareddau ymarferol mewn canolfannau; a
- Phrinder profiad o arholiadau.

1.4.6. Barn gyffredinol am y broses raddio

O ran yr hyn a weithiodd yn dda yn y broses raddio, roedd sylwadau'r cyfranogwr yn adlewyrchu'n bennaf:

- Drylwyredd prosesau cymedroli a safoni
- Elfennau cydweithredol y broses raddio; a'r
- Canfyddiad bod y broses graddau a bennir gan y ganolfan wedi arwain at raddau a oedd yn adlewyrchu gallu'r dysgwr yn fwy cywir o gymharu ag arholiadau.

Wrth fyfyrion ar yr hyn nad oedd yn gweithio cystal yn y broses raddio, pwysleisiodd y cyfranogwyr unwaith eto:

- Nad oedd deunydd asesu newydd wedi'i ddarparu
- Terfynau amser tynn
- Prinder safoni a chymedroli allanol (er i'r pwynt hwn gael ei godi fel un cadarnhaol a negyddol gan wahanol gyfranogwyr); ac
- Effaith y broses ar les athrawon.

Teimlai rhai cyfranogwyr y dylai athrawon fod wedi cael eu had-dalu am waith/amser ychwanegol a dreuliodd ar y broses graddau a bennir gan y ganolfan.

1.4.7. Edrych ymlaen

Roedd barn cyfranogwyr yn amrywio o ran eu hymwneud â graddio TGAU yn y dyfodol y tro nesaf y caiff cymwysterau eu diwygio. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a ddywedodd yr hoffent gael mwy o ymwneud â graddio TGAU yn berthynol i'w lefelau cyfranogiad cyn y pandemig yn teimlo y dylai asesiadau athrawon fod yn gyfran uwch o raddau cyffredinol i gynyddu tegwch yn berthynol i arholiadau. I'r gwrthwyneb, roedd y rhan fwyaf o'r rhai a ddywedodd yr hoffent gael llai o gyfranogiad o gymharu â chyn y pandemig yn gwneud hynny am eu bod yn teimlo y byddai arholiadau neu asesiadau

allanol yn decach i ddysgwyr gan eu bod yn fwy diduedd a chyson na graddau a bennir gan y ganolfan, ac yn fwy hydrin i athrawon.

Dyweddodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yr hoffent weld cydbwysedd mwy cyfartal o ran asesiadau athrawon ac arholiadau wrth symud ymlaen. Roedd rhai o blaid prosesau dilysu a safoni allanol mwy cydweithredol. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o deimlad y dylid cadw asesiadau athrawon mor isel â phosibl, ac mai system sy'n seiliedig ar arholiadau oedd orau i raddau helaeth.

Roedd yr awgrymiadau ar gyfer sicrhau ansawdd asesiadau athrawon yn y dyfodol yn cynnwys:

- Safoni mewnol cydweithredol a chasglu data'n gadarn
- Anfon cynrychiolwyr o'r corff dyfarnu allan i wirio gwaith a rhoi cyngor; ac
- Anfon samplau o waith i ffwrdd i'w marcio.